**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH 17.04.19**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Dylan Hughes, David J. Roberts, Caerwyn Roberts.

**PRESENNOL**
Cyng. Russell Sharp (Is Gadeirydd), Gerallt Jones, Robert G. Owen, Mair Thomas, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd.

Estynwyd longyfarchiadau y Cyngor i'r Cyng. Robert G. Owen a'r teulu ar enedigaeth wyr bach arall.

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Chwefror 27ain 2019 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**
**Cynllun Cyllideb**
Adroddwyd bod £20,572.49 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol y llynedd hyd at y 31ain o Fawrth eleni a bod hyn yn £4,690.11 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn oherwydd bod y costau o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus ddim gymaint a beth oedd wedi ei glustnodi (wedi clustnodi £1,200 ar gwariant yn £815), nid oedd costau'r fynwent wedi bod gymaint (£2,000 wedi ei glustnodi ar gwariant yn £720), ddim gymaint o gyfraniadau wedi cael eu talu (£1,000 wedi ei glustnodi ar gwariant yn £450). Rhannodd y Clerc gopiau o gynllun gyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2019/20 i bob Aelod a oedd yn bresennol ac aethpwyd drwy'r cynllun hwn. Cytunwyd i fabwysiadu y cynllun hwn am y flwyddyn i ddod.

**Prisiau Torri Gwair y Llwybrau Cyhoeddus ar Fynwent Gyhoeddus**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi anghofio rhoi y mater uchod ar yr agenda at y cyfarfod diwethaf ag ei bod wedi gofyn i Mr. Arwel Thomas am bris i dorri gwair y fynwent am eleni a bod ef wedi datgan ei fod yr un fath ag arfer sef £270 y mis. Hefyd adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi cael gwybod gan Mr. Meirion Griffith ei fod ddim yn cymeryd y gontract o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus eleni. Cytunwyd i ofyn i rhai a fyddai diddordeb ganddynt i ymgymeryd ar gwaith o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus.

**Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr o Gyngor Gwynedd ynglyn ar mater uchod yn hysbysu y Cyngor eu bod yn hysbysu y cyhoedd o'r cyfyngiadau parcio arfaethedig hyn ag hefyd yn amgae cynllun. Hefyd yn datgan os na fyddant wedi derbyn sylwadau erbyn dyddiad cau yr ymgynghoriad sef y 3ydd o Ebrill byddant yn cymeryd bod gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad. Cytunodd yr Aelodau a oedd yn bresennol bod ddim gwrthwynebiadau ag i'r gwaith gael ei gario allan.

**Pwyllgor Blynyddol Neuadd Goffa –10.4.19**
Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi mynychu y cyfarfod uchod ac adroddodd fel a ganlyn – bod 9 aelod o'r pwyllgor a dau arall yn bresennol ag hefyd cyfeirwyd at y golled o ddwy aelodau gweithgar oedd wedi dod i ran y pwyllgor yn dilyn marwolaeth Mrs Meinir Lewis a Mrs Mair M. Williams. Wedi derbyn adroddiadau gan y Swyddogion a bod y Swyddogion wedi cytuno i aros yn eu swyddi ac yn dilyn ymddiswyddiad Mrs Hefin Griffiths bydd Teresa Lambert yn cymeryd drosodd o fod yn drysorydd. Bod y sefyllfa ariannol yn foddhaol a bod y pwyllgor yn gwerthfawrogir gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned fel bod yr angen. Hefyd adroddwyd bod ychydig o ddifrod wedi cael ei wneud adeg y storm ond bod y gwaith atgyweirio mewn llaw a cytunwyd bod yr adeilad mewn cyflwr boddhaol a bydd yr offer chwarae yn cael ei dynnu yn fuan. Bydd angen diweddaru gwerth y neuadd i'w roi i'r cwmni insiwrans a chael person gyda'r cymwysterau prioodol i wneud hyn a bod y mater mewn llaw. Hefyd bod Mrs Ann Lewis yn trefnu noson agored i Mr. David Evans a Mr. Robert Lewis i ddod i roi hyfforddiant o sut i ddefnyddio y diffribular. Bydd y pwyllgor nesa yn cael ei gynnal ar y 12ed o Fehefin.

405.........................................Cadeirydd

**Cyfarfod Bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy**
Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r uchod ar nos Iau yr 21ain o Fawrth ac adroddodd fel a ganlyn – bod 7 aelod o'r bwrdd yn bresennol a bod Mr. Chris Hulse wedi cytuno i gario ymlaen i wneud y cyfrifon am flwyddyn arall. Bod incwm y wal ar caffi i fyny ond bod incwm y pwll i lawr a bod un ysgol ddim yn mynychu gwersi nofio oherwydd eu bod ddim yn gallu yfforddio y gost ar hyn o bryd. Bod trafodaethau wedi cael eu cynnal ynglyn ar bws hopper i godi defnyddwyr o faes parcio y pwll nofio a bod y trafodaethau hyn yn dal i cael eu cynnal. Bod y Bwrdd wedi cyflogi un person i wneud y gwaith cynnal a chadw a bod hyn yn fuddiol iawn. Bydd y cyfarfod nesa yn cael ei gynnal ar yr 20ed o Fehefin.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Gosod dwy ffenestr to ar yr edrychiad blaen a gosod ffenest ddormer to fflat ar yr edrychiad cefn – Bryn y Wern, Llanfair (NP5/66/262)**
Cefnogi y cais hwn.

**Codi estyniad un llawr ar y cefn – Gwern yr Hedydd, Fron Deg, Llanfair (NP5/66/263)**
Cefnogi y cais hwn.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**
Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £5,190.62 yn y cyfrif rhedegol, a £5,507.07 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid a Thollad | - | £95.00 | - | treth ar gyflog y Clerc |
| E. W. Owen a'i Chwmni | - | £192.00 | - | darparu PAYE ar lein |
| Un Llais Cymru | - | £97.00 | - | tal aelodaeth |
| Mr. Arwel Thomas | - | £270.00 | - | torri gwair y fynwent |

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mr. M. Downey | - | £40.00 | - rhent cwt yr hers (Mawrth) |
| Mr. M. Downey | - | £40.00 | - rhent cwt yr hers (Ebrill) |

Fe ranodd y Trysorydd gopiau o gyfrifon y Cyngor yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 i bob Aelod a oedd yn bresennol. Fe aethpwyd drwy'r cyfrifon yn ofalus ag fe gymeradwyddwyd y cyfrifon yn unfrydol gan yr Aelodau. Fe arwyddwyd y llyfr cyfrifon gan y Cadeirydd ar Clerc.

**GOHEBIAETH**
**Un Llais Cymru**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ffurflen gan yr uchod yn gofyn am enwau y ddau oedd yn mynd i gynrychioli'r Cyngor ar pwyllgor ardal Meirionnydd. Cytunwyd rhoi enw y Cadeirydd a'r Cyng. Caerwyn Roberts ymlaen.

**UNRHYW FATER ARALL**
Cafwyd wybod bod Hamdden Harlech ac Ardudwy yn cynnal bore coffi yn y neuadd ar yr 20ed o'r mis hwn.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**
**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Mehefin 5ed 2019 am 7.30 o'r gloch**

ARWYDDWYD........[signature]........Cadeirydd

DYDDIAD........5/6/19........